

## **CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

### **PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

**Cofnodion** o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ddydd Iau, 19 Hydref 2017 am 5.30pm.

#### **YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol S. Rees – yn cadeirio

#### **Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol**

|                   |           |             |
|-------------------|-----------|-------------|
| J. Bonetto        | G. Hughes | D. Williams |
| G. Caple          | P. Jarman |             |
| A. Davies – Jones | S. Powell |             |

#### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr S. Gale – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio  
Mr S. Humphreys – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd  
Mr D. J. Bailey – Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Mr C. Jones – Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Mr R. Waters – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Mr A. Rees – Uwch Beiriannydd  
Mr G. Davies - Arweinydd Carfan Darparu Tai

#### **75. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D. Grehan a'r Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J. Williams

#### **76. DATGAN BUDDIANT**

Doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

#### **77. DEDDF HAWLIAU DYNOL A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** – nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

#### **78. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** – nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

#### **79. COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu, a gynhaliwyd ar 21 Medi 2017, yn rhai cywir.

#### **80. CEISIADAU SYDD WEDI'U HARGYMELL AR GYFER EU CYMERADWYO YN YMWNEUD Â SIARADWYR CYHOEDDUS**

(1) Cais rhif: 16/1385 - Cais cynllunio amlinellol i adeiladu tua 460 o anheddau, ysgol gynradd, canolfan leol (hyd at 200 metr sgwâr), lle agored a gwaith draenio a thirlunio cysylltiedig (Tystysgrif B newydd wedi'i chyflwyno ar 6 Ebrill 2017) (Tystysgrif Daliadau Amaethyddol ddiwygiedig wedi'i derbyn ar 30 Awst 2017), tir i'r gorllewin o'r A4119, Cefn yr Hendy, Mwyndy, Pont-y-clun.

Yn unol â'r gweithdrefnau mabwysiedig, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol. Cafodd pob un bum munud i fynegi ei farn ar y cais uchod.

- Mr P. Waldren (Asiant)
- Mrs M Gough (Gwrthwynebydd)
- Mr C Tonks (Gwrthwynebydd)
- Mr D. Rees (Gwrthwynebydd)
- Mr S. Croeser (Gwrthwynebydd)
- Mr A. Fripp (Gwrthwynebydd)
- Mrs S. Seymour (Gwrthwynebydd)
- Mrs S. Foulkes (Gwrthwynebydd)
- Mr D. Jones (Gwrthwynebydd)
- Mr J. David (Gwrthwynebydd)
- Mrs H. Fisher (Gwrthwynebydd)
- Mr P Howard- Jones (Gwrthwynebydd)

- Miss A. Parker (Gwrthwynebydd)
- Mr D. Leathley (Gwrthwynebydd)
- Y Cyngorydd Cymuned P. Griffiths (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant ei hawl i ymateb i sylwadau'r Gwrthwynebwyr.

Siaradodd yr Aelodau Lleol, y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol M. Griffiths a K. Jones, (heb fod ar y Pwyllgor) am y cais, gan gynnig eu gwrthwynebiadau i'r datblygiad arfaethedig

**(Noder:** Doedd Mr Russell (Cefnogwr), a oedd wedi dymuno siarad o blaid y Cais ddim yn bresennol)

Roedd Rheolwr y Gwasanaeth Datblygu wedi rhoi gwybod i'r Aelodau am 'Lythyrau Hwyr' a derbyniwyd gan Ms R Lloyd, Mr L Callen-Evans, Ms N Williams, Mr P Howard-Jones a Mr D Rees a oedd yn gwrthwynebu'r cynllun arfaethedig yn ogystal â llythyr gan Lywodraeth Cymru. Roedd y llythyr yma'n esbonio bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio arfer yr hawl i 'alw i mewn' er mwyn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais. Dywedodd Rheolwr y Gwasanaeth Datblygu wrth yr Aelodau bod y materion a godwyd yn y Llythyrau Hwyr wedi cael eu trafod gan y siaradwyr ac wedi derbyn sylw yn yr adroddiad.

Roedd Rheolwr y Gwasanaeth Datblygu hefyd wedi rhoi gwybod am ddau ddiwygiad i'r adroddiad. Dylai'r ail baragraff ar dudalen 37 a'r seithfed paragraff ar dudalen 43 cyfeirio at y ffaith bod gan y Cyngor ddim tystiolaeth i wrthwynebu honiadau'r preswylwyr eu bod nhw wedi defnyddio'r at bwrpas gweithgareddau hamdden anffurfiol.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd ar y cyd â Rheolwr y Gwasanaethau Datblygu y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, PENDERFYNWYD i gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, yn amodol ar Gytundeb Adran 6 sy'n gofyn am y canlynol:

- Bod 20% o dai sy'n cael eu darparu yn dai fforddiadwy
- Ystyried darparu canolfan lleol ar ôl i 75% (345) o'r tai cael eu llenwi.
- Bod y Cyngor yn cytuno ar raglen rheoli hir dymor ar gyfer rheoli'r man agored sydd i ogledd y safle a mannau ecolegol y safle.
- Darparu mannau chwarae a mannau gwyrdd a fydd yn cael eu rheoli yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol' y Cyngor sy'n ymwneud â goblygiadau cynllunio.
- Bod cynllun hyfforddi sgiliau cyflogaeth yn cael ei drefnu.
- Bod cyfraniad ariannol gwerth £90,000 yn cael ei roi er mwyn creu safleoedd parcio a theithio yng ngorsaf drennau Pont-y-clun.

**(Noder:** Dymunodd y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol P Jarman ac A Davies-Jones cofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio yn erbyn cymeradwyo'r cais uchod).

2. Rhif y Cais: 17/0249 - Datblygiad cam ll diwygiedig a gweithredu parc cynhyrchu ynni ac adfer adnoddau gwastraff cynaliadwy, sy'n cynnwys cyfuno'r iard nweiddio a'r adeilad pyrolysis wedi'u cymeradwyo yn neuadd nweiddio 6,270.43m<sup>2</sup>; simnai 45m o uchder a 3.5m ar ei thraws; neuadd storio tanwydd 2,102.86m<sup>2</sup> a neuadd dyrbinau 378m<sup>2</sup> ar gyfer cynhyrchu trydan; ac iard gwasanaethau awyr agored 4,824m<sup>2</sup> sy'n cynnwys strwythurau ategol, gan gynnwys cyddwysyddion awyr-oeri ar gyfer y gwaith nweiddio, tanciau dŵr tân atodol a thŷ pwmpio, pypiau elfion, cyfnerthyddion nwy, newidyddion a thanc tanwydd a generadur disel wrth gefn, a gwaith plannu a thirwedd derfyn (gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â'r Datganiad Amgylcheddol wedi'i dderbyn ar 19/09/17), Fifth Avenue, Ystad Ddiwydiannol Hirwaun, Hirwaun.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Williams (Asiant). Cafodd e bum munud i roi ei farn ar y cais uchod.

(**Noder:** Ymddiheurodd Mr West, a oedd wedi cyflwyno cais i siarad, gan nad oedd e'n gallu dod i'r cyfarfod.)

Siaradodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Thomas (heb fod ar y Pwyllgor) am y cais, gan gynnig ei farn mewn perthynas â'r datblygiad arfaethedig

Roedd rheolwr y Gwasanaeth Datblygu wedi rhoi gwybod i'r aelodau am gynnwys y llythyrrau 'hwyr' gan Mr a Mrs Wakefield a Chyngor Cymunedol y Rhigos a oedd yn mynegi'u pryderon mewn perthynas â'r cais yma.

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Datblygu y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio. Mae hyn yn amodol ar **Gytundeb Adran 106**. Mae'r cytundeb yma'n gofyn bod y darpariaethaua nodwyd yn nghytundeb adran 106 sy'n rhan o ganiatâd 2010 cael eu darparu yn y datblygiad yma, sef

bod cynlluniau diogelu ar gyfer asedau Dŵr Cymru yng Nghronfa Ddŵr Penderyn yn cael eu paratoi a bod cynllun teithio gwyrdd a rhaglen ynni cymunedol yn cael eu darparu. Rhaid i llwybrau ar gyfer Cerbydau Nwyddau Trwm cael eu darparu yn ogystal â chyfraniadau (gwerth £10,000) er mwyn gwella llwybrau cerdded. Rhaid darparu gorsaf(oedd) bysiau ar Fifth Avenue (£16,000). Rhaid darparu cynllun bioamrywiaeth wedi'i weinyddu gan Butterfly Conservation er mwyn cydnabod a rheoli glaswelltir lleol a chynefinoedd pili-palod (£205,031). Rhaid codi Ffi Cynllun Monitro Bioamrywiaeth (£11,750) a ffi monitro'r

cyfnod adeiladu (£12,000) ar y cyd â darpariaeth ychwanegol er mwyn sicrhau bod y tir ar ffin ogleddol a gorllewinol y Parc Amgylcheddol wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer creu cynefin ar y safle ar gyfer pili-pala Britheg y gors.

**(3) Cais rhif: 17/0801 - Datblygiad preswyl a gweithiau cysylltiedig (cynllun safle diwygiedig a'r cynllun peirianeg wedi'u derbyn ar 06/09/17), tir oddi ar Cardiff Road, Gogledd Cwm Cynon, Aberpennar.**

Yn unol â'r gweithdrefnau mabwysiedig, derbyniodd y Pwyllgor Mrs Setterfeild (Gwrthwynebydd) a gafodd bum munud i fynegi ei barn ar y cais uchod i'r Aelodau.

Arferodd yr Ymgeisydd ei hawl i ymateb i sylwadau'r Gwrthwynebydd.

Cyflwynodd Rheolwyr y Gwasanaeth Datblygu y cais i'r Pwyllgor, ac ar ôl trafod y cais  
**PENDERFYNWYDohirio penderfynu'r cais yma nes bod rhagor o wybodaeth yn cael ei derbyn gan yr Awdurdod Glo mewn perthynas â safle'r cais.**

## **18. ADRODDIAD ER GWYBODAETH**

**PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law. Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo ar gyfer y cyfnod 25/09/17 a 06/10/17.**

